| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD** | **6 Mawrth 2025** |
| **PWNC** | **Calendr Pwyllgorau 2025/26** |
| **PWRPAS** | **Mabwysiadu'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2025/26** |
| **AWDUR** | **Ian Jones**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth** |

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Mabwysiadu'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2025/26.

## 1. CEFNDIR A RHESYMEG

1.1 Cyflwynir y calendr o ddyddiadau pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer 2025/26. Mae'r Calendr yn cynorthwyo'r Cyngor, ei Aelodau a'r cyhoedd i gynllunio ymlaen ar gyfer dyddiadau ac amseroedd prif gyfarfodydd y Cyngor.

1.2 Noder mai dyma'r dyddiadau yr ydym yn eu rhaglennu ar hyn o bryd, ond gall sefyllfaoedd godi ble bydd angen trefnu cyfarfodydd ychwanegol er mwyn gallu gweithredu busnes y Cyngor.

1.3 Tra gwneir pob ymdrech i osgoi cynnal cyfarfodydd yn ystod gwyliau'r ysgol, nid yw hynny yn bosib ar bob achlysur os am sicrhau parhad gwasanaeth y Cyngor.

1.4 Ymgynghorwyd â swyddogion perthnasol ynghyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar fersiwn drafft y calendr pwyllgorau er mwyn sicrhau hyd y gellir nad oes gwrthdaro â chyfarfodydd eraill. Yn ychwanegol, rydym wedi ceisio sicrhau nad oes gwrthdaro gyda dyddiadau cyfarfodydd rhanbarthol megis cyfarfodydd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, er nad yw holl ddyddiadau 2025/26 yn wybyddus eto.

1.5 Yn ychwanegol eleni, rydym wedi nodi dyddiad Sesiwn Briffio i Aelodau pob mis yn ogystal â Diwrnod Hyfforddiant misol, fel bod y Cynghorwyr yn cael digon o rybudd am y dyddiadau. Byddwn yn gwneud pob ymdrech i geisio trefnu'r Sesiynau Briffio neu Hyfforddiant ar y dyddiadau hynny lle bo modd, gan nodi fod posibilrwydd i orfod gwyro i ddyddiadau eraill petai hyfforddwyr neu swyddogion allweddol ddim ar gael.

1.6 Yn dilyn trafodaeth am y Calendr Pwyllgorau yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar 18 Chwefror 2025, gwnaethpwyd awgrymiad i amlygu ar y Calendr pa gyfarfodydd sy'n cael eu cynnal yn hybrid neu'n aml-leoliad. Yn dilyn yr argymhelliad hwn rydym wedi nodi *(H)* wrth ochr y cyfarfodydd hybrid. Noder bod y gweddill (ag eithrio'r Pwyllgor Apelau Cyflogaeth) yn cael eu cynnal yn rhithiol.

## 2. CALENDR PWYLLGORAU 2025/26

2.1 Gweler yr atodiad ar gyfer dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor 2025/26.

## BARN SWYDDOGION STATUDOL

### Y SWYDDOG MONITRO

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

### Y PENNAETH CYLLID

Rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir. O safbwynt materion ariannol, mae'r dyddiadau arfaethedig ar gyfer y cyfarfodydd perthnasol yn caniatáu i'r Cyngor gydymffurfio ag amserlenni statudol lle bynnag bosib.

## ATODIADAU

Atodiad 1 – Calendr o dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor 2025/26.